Cyflwyniad i'r Prosiect newydd hwn

Ar trac
Brighter futures together
Dyfodol disglair gyda'n gilydd

Ar gyfer pwy mae Ar Trac?

Mae Ar Trac yn cefnogi plant a phobl ifanc rhwng 5 ac 16 oed sydd wedi profi neu weld trais yn y cartref ac sy'n arddangos anawsterau gyda pherthnasau teuluol neu gyda chyfoedion.

Gall anawsterau amrywio'n eang a threiddiol; drwy fynd i'r afael â hwy ac adeiladu ar gryfderau plentyndod, mae Ar Trac yn anelu i leihau effaith y profiadau plentyndod niweidiol hynny sy'n gysylltiedig â thrais yn y cartref a gwella lles gydol oes.

Beth fydd Ar Trac yn ei gyflwyno?

Mae'r prosiect yn dwyn ynghyd ystod o ymyraethau, sydd wedi eu cynhyrchu ar y cyd gan asiantaethau lleol gyda phlant a phobl ifanc. Gall gwasanaethau Ar Trac priodol i oedran gael eu teilwrio i'w sylfaenu ar anghenion a chryfderau unigol y plentyn a'u teulu. O ganlyniad, bydd y prosiect a'r hyn y maen ei cynnig yn parhau i ddatblygu.

Bydd timau Ar Trac yn cyflwyno gweithgareddau yn ddwyieithog mewn 10 sir ledled Cymru. Bydd ymyraethau wedi eu cynllunio yn benodol ar gyfer y plant a'r bobl ifanc sy'n defnyddio'r cynllun, a bydd hyn yn cael ei sefydlu drwy'r asesiad cychwynnol gyda phob unigolyn.

Gall ymyraethau gynnwys:

Mentora:

→ Mentora un i un (oedran 5 i 11): Caiff plentyn ei baru gyda gwirfoddolwr sydd wedi ei fetio a'i hyfforddi, sy'n eu mentora'n wythnosol am hyd at flwyddyn, gan roi iddynt le i ffwrdd oddi wrth y cartref teuluol i ganolbwyntio ar eu hanghenion.

→ Mentora un i un gyda chyfoedion, gyda phobl ifanc sydd wedi profi pethau tebyg mewn bywyd (oed 10 i 13), bydd rhai ohonynt wedi defnyddio gwasanaethau Ar Trac eu hunain.

Cefnogaeth trais Person ifanc yn erbyn rhiant:

→ Cefnogaeth un i un sy'n mynd i'r afael â chamdriniaeth person ifanc tuag at riant (oed 11 i 16), gan weithio gyda'r person ifanc a'r rhiant ar wahân.

→ Gwaith Grŵp sy'n mynd i'r afael â thrais person ifanc yn erbyn rhiant (oedran 11 i 16) gan weithio gyda'r person ifanc a'r rhiant ar wahân gan ddefnyddio'r model Break4Change.

Gwaith Grŵp:

→ Gwaith Grŵp penodol o ran rhyw sy'n adeiladu hunan-barch, sgiliau cyfathrebu, a chefnogi datblygiad emosiynol (oedran 11 i 16), a arweinir gan bobl ifanc, ac a gaiff ei sefydlu ar brosiect grŵp (e.e. ysgol goedwig neu gynhyrchiad fideo).

→ Mae rhaglen Cryfhau'r Bond Rhwng Plentyn a Rhiant yn rhaglen 7-8 wythnos ar gyfer plant a phobl ifanc o 7-11 oed. Sesiynau wedi eu cynllunio ar gyfer plant a rhieni/ wedi profi neu fod yn dyst i gam-driniaeth domestig ac yn profi anawsterau gyda pherthnasau teuluol neu gyda chyfoedion.

Mynd i'r afael â bylchau:

→ Adnabod bylchau yn y ddarpariaeth gwasanaeth, bydd y prosiect yn gweithio gyda phartneriaid academaidd, a phlant a phobl ifanc i ddatblygu a chyflwyno darpariaeth cefnogaeth grŵp ac un i un sy'n addas i oedran, sy'n ymwneud â deall profiadau anodd a thrais a chamdriniaeth rhwng brodyr a chwiorydd.

→ Bydd plant a phobl ifanc yn cael cyfle i gyd-gynhyrchu a chyd-hwyluso adnoddau hyfforddiant i bobl broffesiynol (statudol a thrydydd sector) yn ymwneud â thrais yn y cartref, trais rhwng brodyr a chwiorydd a thrais person ifanc yn erbyn rhiant.

Nodau'r cynllun

Drwy gydol y cynllun bydd plant a phobl ifanc yn cael eu grymuso i:

- Fynegi eu hunain yn ddiogel, ac adnabod a blaenoriaethu eu hanghenion eu hunain
- Deall eu profiadau
- Adeiladu gwytnwch a strategaethau ymdopi cadarnhaol, a datblygu sylfaen ar gyfer dyfodol hapus a iach
- Gwneud y penderfyniadau iawn iddynt hwy, gan siapio'r gefnogaeth y maent yn dderbyn yn cynnwys hyd, math o ymyrraeth, a chyfranogiad aelodau teulu ehangach

Mae Ar Trac yn anelu i sicrhau fod Plant a phobl ifanc yn gallu mynd ymlaen i:

- Ddatblygu perthnasau syn iach a diogel
- Teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi
- Gwneud pethau syn bwysig iddynt hwy
- Teimlo fod ganddynt reolaeth dros eu bywydau

Sut i gyfeirio

Mae Ar Trac yn cael ei gyflwyno dros 10 ardal gan 5 partner prosiect rhanbarthol

- Casnewydd a Blaenau Gwent (Cymorth i Fenywod Cyfannol)
- Caerdydd a'r Fro (Cymorth i Fenywod Caerdydd)
- Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr (DVS Calan)
- Ceredigion a Gogledd Sir Penfro (DAS Gorllewin Cymru)
- Gwynedd ac Ynys Môn (Gorwel)

I gyfeirio i'r gwasanaeth neu wneud ymholiad yng Nghasnewydd neu Flaenau Gwent:

Cymorth i Fenywod Cyfannol, Casnewydd
56 Stow Hill
Casnewydd
NP20 1JG

Ffôn 01633 840258
E-bost artrac@cyfannol.org.uk

Cymorth i Fenywod Cyfannol, Blaenau Gwent
Ebbw Vale Institute
Church Street
Ebbw Vale, NP23 6BE

Ffôn 01495 533177
E-bost artrac@cyfannol.org.uk

Prosiect Beacons Consortium yw Ar Trac, syn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a'i gyflwyno gan DVS Calan, Cymorth i Ferched Caerdydd, Cymorth i Ferched Cyfannol, Gorwel, a DAS Gorllewin Cymru

Ar trac
Brighter futures together
Dyfodol disglair gyda'n gilydd